## Gwybodaeth

**Bydd Rheolwr Adeiladu yn:**

- Deall yr effaith amgylcheddol tymor byr a thymor hir, cadarnhaol a negyddol gweithgareddau adeiladu a sut i gynyddu a lleihau'r effeithiau hyn yn ystod pob cam o'r prosiect a thu hwnt iddo.

- Deall sut i adolygu bygythiadau a chyfleoedd i'r diwydiant adeiladu ac arfarnu a gwerthuso dylanwad materion cyfreithiol, gwleidyddol a chymdeithasol cyfredol ar y diwydiant

  Deall y cylch rheoli prosiect gan gynnwys y prosesau cynllunio, cyllidebau, ariannu prosiectau a thalu i arwain at gyflawni prosiectau'n effeithiol.

- Deall Dealltwriaeth Sylfaenol o Gyfraith Contractau a mathau o gontractau.

- Deall strategaethau a phrosesau sy'n gysylltiedig â Rheoli Niwed

- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses adeiladu ac o'r defnyddiau a thechnoleg sy'n rhan o arfer gorau.

- Deall rhwymedigaethau ar gyfer materion Iechyd, Diogelwch a Lles ar y safle, sut i nodi peryglon posibl a rheoli'r risgiau.

- Deall sut i gymhwyso gwybodaeth am y broses adeiladu i archwilio a dethol prosesau caffael.

- Deall a gwerthuso gwahanol arddulliau arwain mewn perthynas â phrosiectau sy'n briodol i'w rôl

- Meddu ar wybodaeth am ddiffygion cyffredin mewn adeiladau a deall mesurau ansawdd gan gynnwys adroddiadau strwythurol, arolygon dadfeiliad ac adroddiadau adeiladau a sut y gellir defnyddio'r rhain.

- Deall deddfwriaeth a'i heffaith ar Adeiladu.

- Gwybod sut i ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol a gweithio ar draws tîm gyda gweithwyr proffesiynol eraill y tîm adeiladu sy'n ymwneud â'r prosiect.

- Deall materion cyfreithiol, cytundebol a rheoli contractau sy'n ymwneud â'r safle a gweithio o fewn cyfyngiadau masnachol a chyfreithiol i sicrhau canlyniadau prosiect effeithiol yn ôl yr angen.

- Deall dulliau o sicrhau cydweithio a chyfathrebu'n effeithiol gyda chleientiaid a/neu randdeiliaid, cydweithwyr, isgontractwyr.

**Sgiliau**

**Bydd Rheolwr Adeiladu yn gallu:**

- Gosod ac adolygu amcanion, nodi adroddiadau a'u cyfyngiadau a chynllunio gweithgareddau a dulliau gwaith i sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni yn unol â gofynion y prosiect ar gyfer y rhanddeiliaid neu'r cleient.

- Dangos gwerthfawrogiad da o arfer da o ran adeiladu a chynnal perthynas waith dda gyda chleientiaid a/neu randdeiliaid.

- Gallu nodi a rheoli risgiau iechyd, diogelwch a lles yn unol â deddfwriaeth, peryglon a systemau gwaith diogel.

- Gallu nodi'r safonau sy'n ofynnol gan gleientiaid a rhanddeiliaid eraill a rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli, cofnodi a gwella ansawdd.

- Rheoli gweithgareddau adeiladu mewn ffordd sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn gweithredu arfer gorau a lleihau/negyddu effaith amgylcheddol lle bo hynny'n bosibl/yn ofynnol.

- Gallu gweithio o fewn cyfyngiadau masnachol a chyfreithiol i sicrhau canlyniadau prosiect effeithiol yn ôl yr angen.

- Gallu ymchwilio i broblemau, achosion ac effeithiau a phenderfynu ar atebion.

- Gallu nodi, cael a phrosesu'r wybodaeth sydd ei hangen i reoli prosiectau.

- Gallu rheoli risg a chynllunio ar gyfer ei liniaru i leihau ei effaith.

- Cyfrannu at reoli a gwerthuso aelodau tîm a chontractwyr arbenigol, adeiladu timau, cynghori ar ddatblygiad, a datrys gwrthdaro i sicrhau gwaith tîm effeithiol.
- Cyfrannu at weithredu datrysiadau arloesol.
- Gallu rheoli trosglwyddiad o gleientiaid a gwasanaeth cwsmeriaid yn effeithiol.
- Gallu rheoli a goruchwylio contractwyr a/neu weithwyr arbenigol yn effeithiol yn ystod y cyfnod adeiladu.
- Gallu datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol a gweithio ar draws tîm gyda gweithwyr proffesiynol eraill y tîm adeiladu sy'n ymwneud â'r prosiect.
- Gallu nodi a chywiro diffygion cyffredin mewn gweithgareddau adeiladu.
- Gallu rheoli gweithgareddau adeiladu mewn ffordd sy'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn gweithredu arfer gorau ac yn gwella, lleihau neu negyddu effaith amgylcheddol lle bo angen.

**Ymddygiadau**

- Gallu gweithio o fewn lefel eich gallu a gwybod pryd i ofyn am gyngor gan eraill a phryd i allu cynghori cleientiaid a/neu randdeiliaid.
- Gweithio o fewn rheolau a rheoliadau cymhwysedd ac ymddygiad proffesiynol a dangos uniondeb a phroffesiynoldeb ym mhob gweithgaredd megis CIOB a gofynion cyrff proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gallu cynllunio a rheoli cyfarfodydd effeithiol, cyflwyno gwybodaeth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dangos sgiliau rhyngbersonol effeithiol.
- Adnabod eich anghenion datblygu eich hun a chymryd camau priodol i ddiwallu'r anghenion hynny.
- Arddangos cydweithio effeithiol a chyfathrebu'n effeithiol gyda chleientiaid a/neu randdeiliaid, cydweithwyr, isgontractwyr.

**Pynciau**

Cynaladwyedd

Yr Amgylchedd Adeiladu

Rheolaeth Adeiladu

Technoleg Adeiladu

Systemau Gwaith Diogel

Rheolaeth Safle

Cynllunio a Threfnu Gwaith

Iechyd, Diogelwch a Lles

Rheoli Ansawdd

Gweithredu Adeiladu Cynaliadwy

Materion Masnachol, Cytundebol a Chyfreithiol

Gwneud Penderfyniadau Effeithiol

Rheoli Gwybodaeth

Arwain Strategaeth Fasnachol

Datblygu Pobl a Thimau

Ymarfer Barn Broffesiynol

Ymrwymiad i God Moeseg

Cyfathrebu’n Effeithiol

BIM

Cynnal DPP

Cynaladwyedd